

Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 1v

Teulu brenhinol

Y brenhin a dyly rodi y'r vrenhines traean a gaffo o doouot o'e dir a'e daear, ac uelly swydwyr y brenhin y swydwyr y vrenhines. Gwerth y brenhin yw y sarhaet teirgweith. Teir ford y gwneir sarhaet y'r brenhin: vn yw pan dorrer y nawd, pan rodo nawd y dyn, a'e lad; eil yw pan del deu arglwyd ar eu kyt teruyn o achaws ymaruoll, ac yg gwyd y deu arglwyd a'r deu lu llad o wr y neill wr y'r llall; trydyd yw camarueru o'e wreic. Sarhaet brenhin Aberffraw, megys hynn y telir: can mu wrth bop cantref a uo idaw, a tharw gwynn ysgyuarllynnic wrth bop can mu onadunt, a gwialen eur kyhyt ac ef ehun a chyn vreisget a'e vys bychan, a chlwr eur kyflet a'e wyneb ehun a chyn dewhet ac ewin amaeth a ry vo amaeth naw mlyned. Ny thelir eur namyn y vrenhin Aberffraw. O deir fford y sarheir y vrenhines: vn yw torri y nawd a rodho; eil yw y tharaw a pheth; trydyd yw cribdeilyaw peth o'e llaw. Traean sarhaet y brenhin yw y sarhaet hitheu a hynny heb eur ac heb aryant. Y brenhin a dyly bot un gwr ar bymthec ar hugeint yn y gedymdeithyas yn marchogaeth, nyt amgen y pedwar swydawc ar hugeint a'e deudec gwestei, heb y deulu a'e wyrda a'e gerdoryon a'e anghenogyon; a hynny a elwir gosgord brenhin.

Gwrthrych yw etlig, yr hwnn a dyly gwledychu gwedy y brenhin, ac a dyly bot yn enrydedussaf yn y llys gwedy y brenhin a'r vrenhines. Ef a dyly bot yn vab y'r brenhin neu yn nei. Y le yn y llys yw y rwng yr osp a'r pennhebogyd, yn chwechet gwr ar seic

y brenhin. Y letty yw yn y neuad, a'r mackwyeit ygyt ac ef y gynneu y tan ac y gaeu y drysseu. Y ankwyn yw yn diuessur ar vwyt a llynn, a'e holl dreul o goprys y brenhin, a phan vo marw etlig, ef a dyly adaw y veirch a'e gwn y'r brenhin, kany dyly ef talu ebediw onyt hynny. Sef achaws nas dyly: wrth y vot yn aelawt brenhin. Sef yw aelodeu y brenhin: y veibyon a'e nyeint a'e gefynderw. Rei a dyweit bot yn etlig pop vn o'r rei hynny; ereill a dyweit nat etlig neb namyn y neb y rodho y brenhin gobeith a gwrthrych idaw ef. Ef yw y trydyd dyn a dyly kynnal kyuedach yn y llys, a gwassanaethwyr rac y vronn ef yn seuyll yn eu gwassanaeth megys rac bronn y brenhin. Ny dyly mynet un nos y wrth y brenhin onys mynn ehun. Gwerth etlig yw traean gwerth y brenhin, heb eur. Nawd etlig yw dwyn y dyn yn niogel. Ebran y varch yn diuessur. Y gwn yn vn werth a chwn y brenhin.

Iorwerth – D

Teulu brenhinol

Y mae'n iawn i'r brenin roi traean i'r frenhines o unrhyw fudd a gaffo o'i dir a'i ddaear, ac yn yr un modd swyddogion y brenin i swyddogion y frenhines. Gwerth y brenin yw teirgwaith ei sarhaed. Tair ffordd y gwneir sarhaed i'r brenin: un yw pan dorrer ei nawdd, pan roddo nawdd i ddyn, a'i ladd; ail yw pan ddêl dau arglwydd at eu cyd-derfyn er mwyn trafod cytundeb, ac yng ngŵydd y ddau arglwydd a'r ddau lu i un o wŷr y naill ladd un o wŷr y llall; trydydd yw camddefnyddio ei wraig. Fel hyn y telir sarhaed brenin Aberffraw: can buwch ar gyfer pob cantref a fo ganddo, a tharw gwyn clustgoch ar gyfer pob can buwch ohonynt, a gwialen aur cyhyd ag ef ei hun ac mor drwchus â'i fys bychan, a phlât aur mor llydan â'i wyneb ei hun ac mor drwchus ag ewin amaethwr a fuasai'n amaethwr am naw mlynedd. Ni thelir aur heblaw i frenin Aberffraw. O dair ffordd y sarheir y frenhines: un yw torri'r nawdd a roddo; ail yw ei tharo â rhywbeth; trydydd yw cipio rhywbeth o'i llaw. Traean sarhaed y brenin yw ei sarhaed hithau a hynny heb aur a heb arian. Mae'n iawn i'r brenin fod ag un gŵr ar bymtheg ar hugain yn ei gwmni yn marchogaeth, sef y pedwar swyddog ar hugain a'i ddeuddeg gwestai, heblaw ei deulu a'i wyrda a'i gerddorion a'i ddibynyddion; a gelwir hynny'n 'osgordd brenin'.

Gwrthrych yw'r edling, sef yr un a fydd â'r hawl i deyrnasu ar ôl y brenin, ac a ddylai fod yn fwyaf anrhydeddus yn y llys ar ôl y brenin a'r frenhines. Dylai ef fod yn fab i'r brenin neu yn nai

iddo. Ei le yn y llys yw rhwng y gwesteiwr a'r penhebogydd, yn un o chwe gŵr wrth fwyd y brenin. Ei lety sydd yn y neuadd, a'r macwyaidd gydag ef i gynnu'r tân ac i gau'r drysau. Mae ei ddog o fwyd a diod yn ddifedur, a'i holl draul o goffrau'r brenin, a phan fo marw edling, mae'n iawn iddo adael ei feirch a'i gŵn i'r brenin, gan na ddylai dalu ebediw heblaw hynny. Dyma pam na ddylai: oherwydd ei fod yn 'aelod brenin'. Dyma aelodau'r brenin: ei feibion a'i neiaint a'i gefndryd. Dywed rhai fod pob un o'r rhai hynny yn edling; dywed eraill na fydd neb yn edling heblaw'r sawl y rhoddo'r brenin obaith a gwrthrych iddo. Ef yw un o dri dyn sydd â hawl i gynnal gwledd yn y llys, a gwasanaethwyr yn sefyll ger ei fron ef yn eu gwasanaeth megis gerbron y brenin. Nid yw'n iawn iddo fynd un nos oddi wrth y brenin oni fydd y brenin ei hun yn dymuno hynny. Gwerth edling yw traean gwerth y brenin, heb aur. Nawdd edling yw hebrwng dyn hyd at le diogel. Bydd porthiant ei farch yn ddifedur. Bydd ei gŵn o'r un gwerth â chŵn y brenin.

Blegywryd – M, Peniarth 33, f. 10v, Brawdwr llys

Brawdwr llys a dily rann gwr o aryant daereteu. Ef a yry pob brawt a berthyno y'r llys. Ef a geiff pedeir ar hugeint y gann pob vn o'r a dangosso y gyfureitheu a'e vreint idaw. Ef a dengys kyfureitheu a breinheu holl swydogyon llys. Pan gymero brawdwr y brenhin gobyr am dadyl a varnnont, ef a geiff kymeint a rann deuwr o hynny. Rwg yr etlig a'r golofyn yd eisted. Ny dyry ef aryant y penguastrawt pann gaffo march y gan y brenhin. Y gan y neb a orffo pan vo amrysson cadeir y keiff ef corn bual, a modrwy eur, a'r gobennyd a dotter y danaw ynn y gadeir. Pann teruynher tir, pedeir ar hugeint a geiff ef. Llenlliein ynn wastat a geiff y gan y vrenhines. O'r anreith a dycco y teulu, kynny bo ef gartref, rann deuwr a geiff. Or dyweit neb ar y brawdwr varnu cam varnn arnaw, rodent eu deu wystlon yn llaw y brenhin, ac os y brawdwr a oruydir a chyureith yscriuenedic yn dangos y oruot, talet y'r brenhin y swyd a gwerth y tauot. Ac ody na varnet vyth.

Or myn y brenhin doddi nebn agyfrwys ac amharawt yg kyfureith yn vrawdwr llys, ynn y llys y dily vot yg kytymdeithas y brenhin yn goffyn ac gwarandaw ygneit a delhwynt o'r wlat y'r llys, ac y discu kyfreitheu a gossotedigaetheu y brenhin, ac aruerod a deuodeu a berthynont wrth awdurdawt; ac yn benhaf teir colofyn kyfreith, a gwerth holl anyueileit dof ac ereill gwyllt ac aruerho dynyon ohonunt; ac y warandaw hawlwr ac amdiffynnwyr y mywn dadleuoed; ac y vot ygyt ac ygneit wrth rodi varneu ac y warandaw eu hamryssoneu ott anuonant at y brenhin yr hynn a uo petrus ganthunt ac a uynhwynt trwydaw ynteu y amlyccau. Gwnnelhent velly trwy y vlwydyn gwbyl.

Blegywryd – M, Brawdwr llys

Mae gan y brawdwr llys hawl i ran gŵr o arian y daeredau. Ef sydd yn datgan pob barn a berthyno i'r llys. Fe gaiff ef bedair ar hugain gan bob un y bydd yn egluro ei gyfreithiau a'i fraint iddo. Ef sydd yn egluro cyfreithiau a breintiau holl swyddogion y llys. Pan gymero brawdwr y brenin obr am ddadl a farnont, fe gaiff ef gymaint â rhan dau ŵr o hynny. Mae'n eistedd rhwng yr edling a'r golofn. Ni ddyry ef arian i'r pengwastrawd pan gaffo farch gan y brenin. Gan yr un a drecho pan fo ymryson am gadair fe gaiff ef gorn bual, a modrwy aur, a'r gobennydd a rodder oddi tano yn ei gadair. Pan osoder terfynau tir, caiff ef bedair ar hugain. Caiff ef lenlliein yn gyson gan y frenhines. O'r anrhaith a gymero'r teulu, er na bydd ef ei hun gartref, caiff ran dau ŵr. Os dywed unrhyw un fod y brawdwr wedi barnu cam farn iddo, rhoddent eu dau wystl yn llaw y brenin, ac os trechir y brawdwr a chyfraith ysgrifenedig yn dangos iddo gael ei drechu, taled ei swydd yn ôl i'r brenin a gwerth ei dafod. Ac wedi hynny na farned fyth.

Os dymuna'r brenin roi rhywun heb hyfforddiant a heb fod yn barod yn y gyfraith yn frawdwr llys, y mae'n iawn i hwnnw fod yn y llys yng nghwmni'r brenin yn holi ac yn gwrandaw ar ynaid a ddêl o'r wlad i'r llys, ac i ddysgu cyfreithiau ac ordeiniadau'r brenin, a'r arferion a'r defodau a berthynont i awdurdod; ac yn bennaf tair colofn cyfraith, a gwerth yr holl anifeiliaid dof a'r rhai eraill gwyllt y bydd dynion yn eu defnyddio; ac i wrando ar hawlwr ac amdiffynnwyr mewn dadleuoedd; ac i fod gydag ynaid wrth iddynt roi barnau ac i wrando ar eu hymrysonau os anfonant at y brenin unrhyw beth a fo'n ddyrys iddynt ac y dymunant iddo ef ei wneud yn eglur. Gwnelent felly dros flwyddyn gyfan.

Blegywryd – R, Peniarth 31, f. 14v

Gof Llys

Gof llys a geiff penneu yr ychen a'r gwarthec a lather yn y llys. Y uwyt ef a'e was a geiff o'r llys. Ef heuyt a geiff trayt y gwarthec oll. Ef a wna holl weith y brenhin yn rat eithyr tri pheth: bwell awchlydan, a challawr, a phen guayw; o rei hynny gwerth y weith a geiff. Kadarnach y dywedir y keiff ef werth y weith o gallawr brenhin, a heyrn rwym porth y castell, a heyrn y velin. Keinyon a geiff yn y kyuedeu. O pop carcharawr oc y diotto heyrn y arnaw pan rydhaer, pedeir keinawc a geiff, a'e tir a geiff yn ryd. Guirawt gyfreithawl a geiff, nyt amgen lloneit y llestri y gowallofyer ac wynt yn y llys o'r cwrwf, ac eu hanher o'r bragawt ac eu trayan o'r med. Ef a geiff gobreu merchet y gofein hyt y bo y swyd. Gobyr merch gof llys yw wheugeint. Gwerth y offer, wheugeint. Cowyll y verch, wheugeint a phunt; y hegwedi, teir punt. Ebediw gof llys, wheugeint.

Blegywryd – R

Gof Llys

Caiff y gof llys bennau'r ychen a'r gwartheg a ladder yn y llys. Caiff ef a'i was eu bwyd o'r llys. Caiff ef hefyd draed y gwartheg oll. Fe wna holl waith y brenin yn ddi-dâl ar wahân i dri pheth: bwyell ag ymyl lydan, a chrochan, a phen gwayw; fe gaiff werth ei waith am y rhai hynny. Dywedir yn gadarnach y caiff ef werth ei waith am grochan brenin, a heyrn i gau porth y castell, a heyrn ar gyfer melin. Yn y gwleddoedd fe gaiff y ddiod gyntaf. Am bob carcharor y tynno'r heyrn oddi arno pan ryddhaer, fe gaiff ef bedair ceiniog, a chaiff ei dir yn rhydd. Fe gaiff wirod gyfreithiol, sef llond y llestri a ddefnyddier i weini cwrw ohonynt yn y llys, a'u hanner llond o'r bragod, a'u traean llond o'r medd. Fe gaiff ef obrau merched y gofaint tra bo yn ei swydd. Gobr merch gof llys yw chweugain. Gwerth ei offer, chweugain. Cowyll ei ferch, chweugain a phunt; ei hagweddi, tair punt. Ebediw gof llys, chweugain.

Cyfnerth – Mk, Llawysgrif Bodorgan, f. 16r

Hela

Or lledir karw brenhin yn tref breyr y bore, katwet y breyr ef yn gyfan hyt hanher dyd, ac ony doant y kynydyon yna, paret y breyr bligaw yr hyd a llithyaw y kwn o'r kic, a dyget y kwn a'r croen a'r wharthawr ol a'r afu. Ac ony doant y kynydyon y nos honno, mwynhaet ef y kic a chatwet y kwn a'r croen y'r kynydyon. Or lledir y karw am hanher dyd yn tref y breyr, katwet y breyr ef yn gyfan hyt y nos; ac ony doant y nos honno, mwynhaet y breyr hwnnw mal yr hwnn gynt. Or lledir hyt nos yn anhed breyr, tanet y vantell arnaw a chatwet yn gyfan ef hyt y bore; ac ony doant y kynydyon yna, bit vn vreint hwnnw a'r rei gynt. Or byd hela gellgwn y wr ryd, arhoet ef y bore hyny ollygho kynydyon y brenhin eu kwn teir gweith; ac odyndy gollyget ynteu. Pwy bynhac a latho hyd ar tir dyn arall, rodet wharthawr y perchennawc y tir, onyt hyd brenhin uyd, kany byd wharthawr tir yn hyd y brenhin. Or gwyl ffordawl uwystuil y ar y fford y mywn fforest brenhin, byryet ergyt idaw os myn; ac os medyr ymlynet tra'e gwelo. Ac o'r pan el y dan y olwc, gadet e hunan.

Hyt hyn gan ganhat Duw kyfreitheu llys ry traethassam. Weithon gan borth y gogonedus arglwyd Iesu Grist kyfreitheu gwlat a dangosswn.

Cyfnerth – Mk

Hela

Os lleddir carw brenin yn nhrefgordd brëyr yn y bore, cadwed y brëyr ef yn gyfan tan hanner dydd, ac oni ddaw'r cynyddion yna, dylai'r brëyr beri blingo'r hydd a bwydo'r cŵn â'r cig, a chymered y cŵn a'r croen a'r chwarter ôl a'r afu. Ac oni ddaw'r cynyddion y noson honno, mwynhaed ef y cig a chadwed y cŵn a'r croen i'r cynyddion. Os lleddir y carw am hanner dydd yn nhrefgordd y brëyr, cadwed y brëyr ef yn gyfan tan y nos; ac oni ddaw'r cynyddion y nos honno, mwynhaed y brëyr hwnnw fel yr un cynt. Os lleddir ef yn ystod y nos yn nhrigfa brëyr, taened ei fantell arno a chadwed ef yn gyfan tan y bore; ac oni ddaw'r cynyddion yna, bydded hwnnw yr un modd â'r rhai cynt. Os bydd gŵr rhydd yn hela gyda gellgwn, arhosed ef yn y bore hyd nes y gollyngo cynyddion y brenin eu cŵn dair gwaith; ac wedi hynny gollynged yntau [ei gŵn]. Pwy bynnag a laddo hydd ar dir dyn arall, rhodded chwarter i berchennog y tir, onid hydd brenin fydd, gan na fydd chwarter tir yn hydd y brenin. Os gwêl teithiwr anifail oddi ar y ffordd yn fforest y brenin, bwried ergyd ato os dymuna; ac os llwydda i'w daro dilyned ef tra gall ei weld. Ac unwaith yr êl o'i olwg, gadawed lonydd iddo.

Hyd yma trwy ras Duw y trafodasom gyfreithiau'r llys. Yn awr gyda chymorth y gogoneddus arglwydd Iesu Grist eglurwn gyfreithiau'r wlad.